# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Rhoi triniaeth arbennig: gofyniad trwyddedu*

### 58 Gofyniad i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig gael ei drwyddedu

(1) Mae'r gofynion a ganlyn yn gymwys mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig yng Nghymru.

(2) Rhaid i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall yng nghwrs busnes wneud hynny o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig, oni bai bod yr unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth wedi ei esemptio o'r gofyniad i gael ei drwyddedu mewn cysylltiad â'r driniaeth honno.

(3) Rhaid i unigolyn sydd wedi ei ddynodi o dan adran 61 sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall wneud hynny o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig, pa un a roddir y driniaeth yng nghwrs busnes ai peidio.

(4) Am ddarpariaeth ynghylch esemptiad o'r gofyniad i gael trwydded, gweler adran 60.

### 59 Darpariaeth gyffredinol ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig

(1) Mae trwydded triniaeth arbennig yn drwydded a ddyroddir gan awdurdod lleol o dan y Rhan hon.

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi i'r driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig hynny) a bennir yn y drwydded gael ei rhoi yng Nghymru gan ddeiliad y drwydded.

(3) Ond nid yw trwydded i gael ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd yng Nghymru sydd

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

naill ai wedi ei meddiannu neu ei feddiannu gan, neu sydd i unrhyw raddau yn cael ei rheoli neu ei reoli gan, neu sydd i unrhyw raddau o dan reolaeth—

(a) yr unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth ("P"), neu

(b) pan fo P yn rhoi'r driniaeth o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth, neu gontract am wasanaethau â pherson arall ("E"), E,

oni bai bod yr amodau yn is-adran (4) wedi eu bodloni.

(4) Yr amodau yw bod y fangre neu'r cerbyd—

(a) wedi ei nodi yn y drwydded, a

(b) wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo o dan adran 70 mewn cysylltiad â'r driniaeth.

(5) Ond nid yw is-adran (3) yn gymwys os nad yw'r gofyniad yn adran 69(2) (triniaeth i gael ei chynnal mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd yn unig), yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 69(8), yn gymwys mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd o dan sylw.

(6) Mae'r cyfnod pan yw trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi i gael ei bennu yn y drwydded, a rhaid i'r cyfnod naill ai—

(a) bod yn gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod, sy'n dechrau â dyddiad a bennir yn y drwydded, neu

(b) bod yn gyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r drwydded.

(7) Am ddarpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau triniaeth arbennig, ac ynghylch amrywio, adnewyddu a dirymu trwyddedau triniaeth arbennig, gweler Atodlen 3.

(8) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriadau at gyfnod y drwydded, mewn perthynas â thrwydded triniaeth arbennig, yn gyfeiriadau at y cyfnod pan yw'r drwydded yn awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi;

(b) mae cyfeiriadau at ddeiliad y drwydded, mewn perthynas â thrwydded triniaeth arbennig, yn gyfeiriadau at yr unigolyn y dyroddir y drwydded iddo;

(c) mae cyfeiriadau at drwydded dros dro yn gyfeiriadau at drwydded sy'n awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi am gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod.